# Cofnodion

**Senedd**

**12/05/2025**

## Aelodau a fynychodd:

Will Parker (SLlA)

Emily Morgan (SLlA)

Tiff McWilliams (SLlA)

Francesco Lanzi (CADEIRYDD)

Tristan Wood (SG)

Heather Kerby (SG)

Livvy Hagget (SG)

Beca Wright Hughes (SG)

Marty Fennell (SG)

Jade Guildford (CHWARAEON)

Katie Mason (CHWARAEON)

Alex Molotska (SG)

Rory Young (VP)

Bradley Powell (CYMDEITHASAU) Ollie Hall (CYMDEITHASAU)

Millie Hackett (SC)

Jo Buys (SC)

Nanw Maelor (UMCA)

## Hefyd yn bresennol: (Arsylwyr Myfyrwyr)

Sera Talea

Harley Harrison

Billy Smith

Blue Bell

Luke Jones

Rebecca Edwards

James Ashford

Esperanza Bizama

## Absenoldebau

Elain Gwynedd (SLlA) - Anfonwyd Ymddiheuriadau

Ifeyinwa Anaduaka (SG) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Dewis Price (SG) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Evy Gwynne (CHWARAEON) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Deborah Osarieme (CYMDEITHASAU) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Bruni Kington Brady (CYMDEITHASAU) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Ozzy Humphreys (CYMDEITHASAU) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Mariam Elsergany (UAR) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Catrin Alaw Jones (UMCA) - Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

| Agenda | Eitem | Nodiadau | Crynodeb o'r Bleidlais | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | O Blaid | Yn Erbyn | Ymwrthod |
| **Sylwadau Croesawu ac Agoriadol** | Rhoddodd Cadeirydd yr Undeb groeso i bawb a fynychodd y cyfarfod | Mae Cadeirydd yr Undeb yn rhoi croeso i bawb yn y cyfarfod. Dechreuwyd y Cyfarfod: 18:05 | | | |
| | Ymddiheuriadau am Absenoldeb | Anfonwyd Ymddiheuriadau gan: Elain (SLIA) | | | |
| | Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf | Dim byd i'w nodi | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Materion sy'n codi | Dim materion sy'n codi | | | |
| **Adroddiad y Swyddogion** | Trafododd y Swyddogion eu gwaith diweddar a'u blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. | Rhoddodd y Swyddogion y diweddaraf ar eu gwaith presennol. Gweler yr adroddiad yma. | | | |
| **Polisïau sy'n dod i ben:** | Diweddariadau ar unrhyw bolisïau sy'n dod i ben | Dim diweddariadau i'w cyhoeddi | | | |
| **Syniad 1: A ddylai Undeb Aber wrthsefyll ac ymgyrchu yn erbyn dyfarniad Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig ar rywedd?** | Cynigydd | Cynigiwyd gan: **Emily Morgan (SLIA)** | | | |
| | Araith y Cynigydd | Roedd Mo (SLIA) eisiau sicrhau ei bod hi'n cyfleu popeth yn gywir a pharchus, felly darllenodd y syniad yn uniongyrchol o'r agenda. Cyfeiriodd at y datganiad a ryddhawyd gan yr Undeb, a ddarllenwyd yn uchel i'r stafell gan Tiff (SLIA). Esboniodd Mo mai grymuso yr Undeb i ymgyrchu a chefnogi'n weithredol myfyrwyr sydd eisoes ynghlwm ag ymdrechion ymgyrchu yw pwrpas y cynnig.<br>Amlinellodd wedyn restr o gamau posibl y gallai'r Undeb eu cymryd. | | | |
| | Araith yn erbyn | Siaradodd neb yn erbyn. | | | |
| | Cwestiynau / Sylwadau | **Harley (aelod):** Mae'r Brifysgol yn defnyddio hunan-adnabyddiaeth. Beth ddigwyddai os daw yn gyfraith? A fyddai'r Undeb yn torri'r gyfraith?<br>**Ash (Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth):** Na fyddai, ond byddem yn cael hyd i ffordd o'i hamgylch. | | | |
| | Adborth oddi wrth grwpiau trafod. | **Ollie (CYMDEITHASAU):** Beth mae'r Undeb eisoes wedi'i wneud i ddechrau? | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mo (SLIA):** Mae'r Undeb wedi cyhoeddi datganiad sydd, yn y bôn, yn dweud y gwnawn ni ei anwybyddu a thrio ein gorau i gefnogi myfyrwyr.<br>**Ollie (CYMDEITHASAU):** Fe ddylem ni bendant lobio yn ei erbyn gan fod hyn yn ymwneud â hawliau.<br><br>**Harley (Aelod):** Beth fyddai'r cynllun ar ôl y datganiad?<br>**Mo (SLIA):** Mae caniatáu i'r Undeb ymgyrchu a chefnogi myfyrwyr i ymgyrchu'n llawn. Mae hefyd yn golygu os daw yn gyfraith y gallwn amddiffyn ein hunain yn dibynnu ar y cyngor.<br><br>**Will (SLIA): Ydy, ond nid oes fawr i'w drafod**<br>**Tiff (SLIA): Rydyn ni o'r farn nad yw'n iawn i drafod bywydau pobl**<br><br>**Tristan (SG):** Mae'n ddyfarniad niweidiol i gymaint o bobl ac nid yw'n amddiffyn menywod. Mae'n rhy gymhleth i'w ddeall ond dylem weithio arno a'i esbonio wrth eraill. Gallai'r Undeb wneud llawer gyda hyn.<br><br>**Jade (CHWARAEON):** Mae'n rhaid i ni ei wrthsefyll. Prifysgol sy'n gadael i fyfyrwyr hunaniaethu ydyn ni, felly mae er ein budd ni i amddiffyn hawliau i wneud felly. | | | |
| | Sylwadau Eraill. | Crynhodd Mo y syniad: Fel ddylem ni amddiffyn myfyrwyr traws, rhyngrywiol, ac anghydffurfiol eu rhywedd. | | | |
| | Pleidlais | 17 pleidlais<br>**Pasiwyd** | 100% | 0% | 0% |
| Syniad 2: A ddylai Undeb Aberyswyth | Cynigydd | Francesco (Cadeirydd) | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| roi'r gorau i'w gyfrif "X", a lobio'r Brifysgol i wneud yr un peth? | Araith y Cynigydd | **Francesco (cadeirydd): camodd i lawr fel cadeirydd ar gyfer y syniad hwn a'r Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth gadeiriodd y rhan hon o'r cyfarfod.**<br><br>Trafododd Francesco y syniad hwn ar ran y myfyrwyr a gyflwynodd y syniad ond ni allai fynychu'r cyfarfod. Mae X wedi gweld newidiadau sy'n ei danseilio fel man saff. Mae gan yr Undeb a'r Brifysgol gyfrifon X gweithredol a ddefnyddir i gyfathrebu gyda staff a myfyrwyr. Mae llawer o lefydd eraill wedi penderfynu ar roi'r gorau i X gan gynnwys Bangor. Ni ddylai'r Undeb gefnogi X gan nad yw'n cyd-fynd â'i werthoedd a'i bolisïau. | | | |
| | Araith Araith yn erbyn | Siaradodd neb yn erbyn | | | |
| | Cwestiynau / Sylwadau | **Harley (aelod): a fyddwn ni'n parhau i ddefnyddio cyfrifon eraill?**<br>**Francesco (cadeirydd):** Byddwn, cyfrifon fel Facebook, Instagram, a TikTok. Go brin y bydd yr Undeb yn defnyddio X. Pe bai eisiau ar yr Undeb, gallai symud i Blue Sky sy'n gwneud yr un peth ag X ond yn fwy moesegol. Ni fyddwn yn colli dim byd ond fe ddangosir bod ots gan yr Undeb.<br><br>**Ollie (CYMDEITHASAU): A allwn ni ei stopio neu ei derfynu?**<br>**Francesco (cadeirydd):** Ei ddileu fyddai orau. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adborth oddi wrth grwpiau | **Jade (CHWARAEON):** Os nad oes neb yn ei ddefnyddio yna mae'n iawn. Fy unig bryder yw lle byddwn ni'n  Mae gan Facebook agweddau sydd yr un mor beryglus. Pam fod X yn ddrwg ac nid Facebook nac Instagram?<br>**Francesco (cadeirydd):** Os teimlith rhywun fod Facebook yn rhy beryglus neu nad yw'n cyd-fynd â gwerthoedd yr Undeb, mae croeso iddynt ei gyflwyno fel polisi. Credaf fod Elon Musk yn fwy niweidiol.<br><br>**Tristan (SG):** Dim ond heddiw ydw'i wedi gweld rhai tweets afiach. Mae wedi troi'n bwll lle mae agweddau asgell dde eithafol yn rhemp ac nid oes lle iddynt ar y campws hwn.<br><br>**Tiff (SLIA):** Mae Twitter yn ennyn y diddordeb lleiaf ac yn cwympo'n gyson. Nid ydyn ni'n poeni am sut y caiff hyn effaith ar allu'r Undeb i ennyn diddordeb myfyrwyr.<br><br>**Heather (SG):** Rydyn ni hefyd yn gytûn ond mae sôn am lle y tynnir y llinell. Efallai y dylai'r Undeb rannu materion dros sianneli eraill - gan ddangos ymwybyddiaeth o gamddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.<br><br>**Harley (aelod):** Ni ddylai hyn fod y diwedd ar y sgwrs hon ynglŷn â chamddefnydd ar y cyfryngau cymdeithasol. | | | |
| | | Sylwadau eraill | **Francesco (cadeirydd): i grynhoi - does dim amdani ond i'r Undeb glicio dileu.** Dwyn perswâd ar y Brifysgol a'i hadrannau i wneud yr un peth yw ail hanner y gwaith hwn. | | | |
| | | Pleidlais | 17 o bleidleisiau<br>**PASIWYD** | 88.24 | 0 | 11.76 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Syniad 3: A ddylai undeb Aber a’r Brifysgol drawsnewid y Gerddi Botaneg yn ‘Gerddi Botaneg Penglais’, man deinamig a cynhyrchiol i wyddoniaeth, dysgu, a lles? | | Cynigydd | Rebecca (aelod) a James (aelod) | | | |
| | | Araith y Cynigydd | **Rebecca (aelod) a James (aelod): rydyn ni’n defnyddio ar y tai gwydr hyn oedd gynt heb eu defnyddio a rhoi gwedd newydd arnynt.** Maent yn dyddio yn ôl i 1950 ac yn gartref i blanhigion prin ac unigryw. Mae’n ei chael hi’n anodd ers colli aelod staff parhaol. Gellir manteisio arno at ddysgu, lles, ac ymchwil. Gall llawer o’n syniadau (gweler yr agenda) gael eu defnyddio at godi arian. Gallai gynnal digwyddiadau sef yr ŵyl farddoniaeth.<br>Llawer o bosibiliadau ar gyfer gwyddoniaeth ac ymchwil. Gallai’r Brifysgol fanteisio arno at gydweithio ymchwil allanol gan ei fod yn gartref i lawer o bethau nad ydynt yn gynhenid i Gymru.<br>Byddai hefyd yn rhoi profiad gwirfoddol. Mae’r Clwb Phyte wedi ymroi llawer o waith galed iddo. Buont yn ymgyrchu dros aelod staff rhan amser ac ennill. Mae pwyllgor y gerddi botaneg yn cwrdd â staff unwaith y mis ac yn trafod y sefyllfa bresennol a beth ddylai ddigwydd. Mae Tiff o’r Undeb wedi bod yn ein helpu gyda hyn.<br><br>Cysylltodd â’r cynllun gerddi agored sef elusen sy’n sefydlu llefydd i’r gymuned gael ymweld â nhw. Roeddent i’w gweld yn awyddus i gymryd rhan. Sicrhawyd grant i helpu gyda difa pla.<br><br>Rydyn ni’n gwerthu’r planhigion ac yn defnyddio man a fyddai fel arall yn wag trwy gydol y flwyddyn.<br><br>Allwn ni fel ond wneud hyn a hyn fel myfyrwyr.<br>Rydyn ni’n gofyn i’r Undeb gefnogi newid enw ac arwyddion i ddangos lle mae.<br>Adroddiad cynnydd y tymor a chynllunio at y dyfodol.<br>Yn yr hir dymor, rydyn ni eisiau aelod staff llawn amser. Mae cael gweithiwr rhan amser wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Gall yr Undeb helpu gyda llais y myfyrwyr. | | | |
| | | Araith yn erbyn | Siaradodd neb yn erbyn | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cwestiynau / Sylwadau | **Millie (SC) :** Ydych chi'n gwybod a fyddai'r Brifysgol yn cefnogi newid yr enw?<br>**James (aelod):** Cyfarfu Tim Marcy o'r Ystadau gyda ni ac ymddangos o'i blaid.<br><br>**Will (SLIA):** Beth ydych chi'n ei gofyn gan y Senedd?<br>**James (aelod):** Mae'n anodd i fyfyrwyr gael eu cymryd o ddifri gan y Brifysgol. Gallai llais y myfyrwyr helpu cefnogi ymgyrchu dros yr hyn rydyn ni ei angen.<br><br>**Tristan (SG):** Sut byddai'r aelod staff parhaol gael ei ariannu?<br>**James (aelod): cyn i ni bwyso am yr aelod staff rhan amser, roedd yn amlwg nad oedd neb yn gweithio yno.** Mae angen llawer o waith cynnal a chefnogaeth ar y lle. Mae'r aelod staff rhan amser yn gwneud llawer ac yn dda wrth ei waith, ond mae angen mwy o amser i allu gwneud popeth.<br>**Rebecca (aelod):** Ers blwyddyn, mae'r gymdeithas wedi llwyddo i godi tipyn o arian, ac rydyn ni wedi cael grant a gyda dim ond dau berson ar y pwyllgor. Os gall Undeb y Myfyrwyr ymgyrchu a thynnu sylw at y lle, credwn ni fod budd economaidd posibl mawr.<br><br>**Ollie (CYMDEITHASAU):** Ers pa mor hir ydych chi wedi cael yr aelod staff rhan amser?<br>**Rebecca (aelod): 6 mis.** Ond megis dechrau mae fe a bydd yn gweithio yn ystod yr haf. Heblaw am hynny, nid ydyn ni'n siŵr ond rydyn ni am fynd ymhellach.<br>**James (aelod): stopiodd y gŵr cyn hwn weithio y Nadolig gynt a buodd yno am flynyddoedd lawer.** Roedd bob tro rhywun yn gweithio yno ond mae wedi mynd i'r wal ers hynny am nad oes digon o gefnogaeth. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Millie (SC):** Credaf y byddai'n dod â chysylltiadau cymunedol. Mae gan erddi'r dref a gerddi'r brifysgol restrau aros hir i bobl eu defnyddio. A oes lle y gallai'r gymuned ei ddefnyddio neu a fyddai rhaid i ni wneud lle?<br>**James (aelod): mae cymaint o le i'r gymuned ei ddefnyddio.**<br><br>**Harley (aelod): mae llawer o ysgogiad wedi dod gan y gymdeithas.** Beth ddigwyddai pe bai'r gymdeithas yn dymchwel am unrhyw reswm – pe bai brys?<br>**James (aelod):** Dyma pam rydym yma; byddai'n bolisi am 3 blynedd fel y gallai'r Undeb barhau ag ef os na fyddwn ni'n bod mwyach. | | | |
| | | Adborth oddi wrth grwpiau | **Will (SLIA):** Trafodasom logisteg. Nid oes fawr o arian gan y Brifysgol. Pe bai dewis rhwng hyn a rhywbeth arall, ni chredaf y rhoddai'r Brifysgol arian i hyn. Efallai y caem newid i'r enw a'r arwyddion ond rwy'n ansicr y caiff ei gwblhau.<br>**James (aelod):** Rydyn ni'n deall nad gwaith bach mo hyn.<br>**Rebecca (aelod):** Dyna pam ei fod wedi'i rannu'n amcanion byr a hir dymor. Mae'n creu cam mawr ymlaen.<br>**James (aelod):** Gall y Brifysgol ei ddefnyddio at ddiwrnodau agored. Mae llawer o frolio amdano ond yna nid ydynt yn ei ddefnyddio. Gall gael ei ddefnyddio at recriwtio myfyrwyr a'i ddefnyddio ar ôl.<br>**Tiff (SLIA):** Rydyn ni'n cael llawer o gynigion polisi ac efallai na allwn ni ei gwblhau ymhen 3 blynedd ond nid yw'n golygu na ddylem fynd amdani.<br><br>Millie (SC): Fel llywydd y flwyddyn nesaf, carwn gefnogi hyn. Syniad gwych yw ei rentu i'r gymuned. Os nid yw ond yn hel llwch, a gallwn ni ei droi yn gyfle ariannol, ni allaf weld bod y Brifysgol am wrthod. Fe allwn ni wneud llawer mewn 3 blynedd, ond mae modd ei ymestyn pan fo galw.<br>**Jo (SC):** Does dim yn bod ar fod yn wyrddach ac mae'n gyfle gwych i ni ei ddefnyddio at ymchwil bioleg. Mae ei gael mor agos at y brifysgol yn syniad hyfryd. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Tristan (SG):** Mae'n swnio'n dda iawn. Dywedwch wrth y Brifysgol bod modd ennill arian, a bydd wrth ei bodd. Fy mhumed flwyddyn yn Aber yw hon a bob tro i fi gerdded heibio, rwyf yn dymuno gweld gweithredu arno. Waeth i ni ei ddefnyddio a gallai fod o fudd i bobl. Gorau oll os caiff ei dalu gyda grantiau. Mae'n anhygoel eich bod chi eisoes wedi sicrhau arian.<br>**Heather (SG):** Bob tro y byddaf yn cerdded heibio rwy'n gweld cymaint o bosibiliadau. Dylid manteisio i'r eithaf arno am ei fod yn cefnogi lles.<br>**James (aelod):** Cliriwyd un o'r gwlâu wrth ymyl y pwll a gosodir mainc fel bod modd eistedd - lles. Eisteddai pobl ar lawr, ond rydyn ni am gael mainc y mae Rebecca wedi'i dylunio. Caiff pobl ymlacio wrth ymyl y pwll.<br><br>**Harley (aelod):** Mae'n syniad gwych. Efallai bydd gofyn ymrwymiad gan yr Undeb ond rhywbeth y dylai'r Undeb ymrwymo iddo yw hyn. Y peth cadarnhaol nesaf ddylai hyn fod. Fel swyddog anabledd y flwyddyn nesaf, carwn gymryd rhan i helpu gyda'r gwaith hygyrchedd ynghlwm â'r prosiect.<br><br>**Ollie (CYMDEITHASAU): Oes lle i sefydlu swyddfa i waith?**<br>**Rebecca (aelod):** Ceir yno fyrddau gyda wifi a chegin fach gyda the. Hefyd, ychydig o siediau sy'n llawn ar hyn o bryd. Trowyd un yn ystafell de ac mae yno ddodrefn.<br>**Esperanza (aelod):** Mae'n codi fy nghalon - roeddwn eisiau gwybod a allai weithredu fel man astudio?<br>**Rebecca (aelod): Gellir symud cadeiriau i unrhyw le yn yr ardd i chi gael astudio unrhyw le.**<br><br>**Millie (SC):** Pryd cewch chi fynd i'r ardd?<br>**Rebecca (aelod):** Byddwn yno dydd Mercher 1-5. Pe bai aelod staff parhaol yna y gallai aros ar agor o hyd. | | | |
| | | Unrhyw sylwadau | **James (aelod):** Dyma adnodd sy'n cael ei wastraffu y gallwn ei ddefnyddio. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pleidlais | **17 pleidlais**<br>PASIWYD | 88.24 | 5.88 | 5.9<br>9 |
| Unrhyw faterion eraill | Unrhyw faterion eraill:<br>Atgoffodd y cadeirydd y Senedd i gofnodi eu Horiau Gwirfoddoli. Mae ganddynt tan ddiwedd Mai i wneud hyn.<br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn aelodau'r Senedd eleni. Mae wedi bod yn awyrgylch gweithredol a hyfryd.<br><br>Y Senedd nesaf: y flwyddyn academaidd nesaf | | | | |

SLlA = Swyddog Llawn Amser

SG = Swyddog Gwirfoddol

SC = Swyddog Cyfadran

**Chwaraeon = Cynrychiolydd Chwaraeon**

**Cymdeithasau = Cynrychiolydd Cymdeithasau**

**UMCA = Cynrychiolydd UMCA**

**CIR = Cynrychiolydd Is-Raddedig**

**CÔR = Cynrychiolydd Ôl-raddedig**

**Aelod = Aelod o'r Undeb ond nid aelod o'r Senedd**